Cyngor Partneriaeth Cymru – 25 Tachwedd 2024

12.30 - 14.30 drwy Teams

Sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd

Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai (Ysgrifennydd y Cabinet) yr aelodau i'r cyfarfod, gan nodi'r ymddiheuriadau.

2. Cyn dechrau ar brif eitemau'r agenda, fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet gydnabod yr amser hynod anodd a gafwyd gan lawer o bobl dros y penwythnos oherwydd effeithiau dinistriol Storm Birt. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet am gofnodi ei diolch i bawb a fu'n rhan o'r ymateb i'r digwyddiad, gan gynnwys arweinwyr a swyddogion a fu'n gweithio'n ddiflino i leihau effaith y storm ar eu preswylwyr.

3. Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd at y trafod parhaus sy'n digwydd rhwng ei swyddogion ac awdurdodau lleol ynghylch unrhyw gymorth sydd ei angen o dan y Cynllun Cymorth Ariannol Brys.

Eitem 1: Newid Hinsawdd – diweddariad Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol

O dan arweiniad Tim Peppin, CLlLC

4. Agorodd Ysgrifennydd y Cabinet yr eitem drwy dynnu sylw at rôl allweddol Cyngor Partneriaeth Cymru wrth oruchwylio gwaith Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol, a phwysigrwydd yr angen i gydweithio ar yr agenda hon.

5. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i aelodau'r Panel Strategaeth, CLlLC, ac awdurdodau lleol am yr ymrwymiad a'r cynnydd rhagorol a wnaed hyd yma ar y gwaith hanfodol hwn.

6. Rhoddodd Tim Peppin (CLlLC) yr wybodaeth ddiweddaraf ar ran y Panel Strategaeth, a rhaglen Cymorth Hinsawdd CLlLC. Roedd y rhain yn dangos y cynnydd yn erbyn map llwybr y sector cyhoeddus tuag at sero net a'r ymrwymiadau yng nghynllun lleihau carbon 'Cymru Sero Net' ar gyfer cyllideb garbon, ynghyd â'r cymorth y bydd ei angen ar awdurdodau lleol wrth symud ymlaen. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar bwysigrwydd lliniaru ac addasu wrth gyrraedd targedau newid hinsawdd.

Eitem 2: Economi, Ynni a Chynllunio – diweddariad ar flaenoriaethau

O dan arweiniad Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

7. Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet groesawu Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS, gan ei gwahodd i roi diweddariad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin, datblygu economaidd, a blaenoriaethau cynllunio.

8. Roedd diweddariad Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:
   - Cadarnhaodd Llywodraeth y DU £900m yng nghyllideb yr hydref ar draws y DU ar gyfer 2025-2026 i gefnogi blwyddyn bontio ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin, er mwyn darparu rhywfaint o barhad i awdurdodau lleol am y 12 mis nesaf tra bod dull gweithredu newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2026 ymlaen. Nid oedd dyraniadau ar gyfer Cymru wedi eu cadarnhau eto, ond pe bai cyfrannau blaenorol o'r Gronfa'n yn cael eu cynnal, yna byddai hynny'n golygu y gallai dros £200m fod ar gael ledled Cymru yn y flwyddyn ariannol nesaf.
   - Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn ymwybodol o'r angen am eglurder a sicrwydd ynghylch beth fyddai hyn yn ei olygu i awdurdodau lleol yng Nghymru o ran cefnogi cynllunio a diogelu swyddi. Roedd hi hefyd yn cydnabod yr angen am frys o ran penderfyniadau a'r alwad am sefydlogrwydd er mwyn sicrhau bod pethau'n symud yn esmwyth.
   - O safbwynt datganoli, roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn gweld parodrwydd Llywodraeth y DU i ddod i gytundeb ar y flwyddyn bontio a chynlluniau ar gyfer y dyfodol fel rhywbeth cadarnhaol.
   - Roedd newid tuag at ganolbwyntio ar ddatblygu rhaglen fuddsoddi newydd ar gyfer Ebrill 2026 ymlaen. Fel sail i hyn, disgwylir dod i gytundeb ar adfer y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer cronfeydd rhanbarthol i Lywodraeth Cymru.
   - Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn cydnabod cryfderau a gwendidau model y Gronfa Ffyniant Gyffredin, a phwysleisiodd yr angen i gydweithio i sicrhau bod dull gweithredu yn y dyfodol yn manteisio i'r eithaf ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yn ogystal â'r gwaith a wneir ar y cyd â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac eraill
   - Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio sylw at Genhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru sy'n disgrifio cynlluniau i sicrhau twf economaidd cynaliadwy ledled Cymru. Mae'n canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth: yr economi werdd; platfform sgiliau i bobl ifanc; cryfhau'r rhanbarthau a'r economi bob dydd; a buddsoddi ar gyfer twf. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn bwriadu bwrw ymlaen â chyfres o adolygiadau byr gydag arbenigwyr allweddol er mwyn helpu i gyflawni mewn meysydd o flaenoriaeth, gan ddenu buddsoddiadau addas a sicrhau twf cynaliadwy.
   - Mae cyflymu penderfyniadau cynllunio yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn

datblygu rheoliadau i ddirprwyo pwerau penderfynu i Benderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru er mwyn cyflymu caniatâd seilwaith ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy hyd at 50MW, gyda'r nod o leihau'r amser penderfynu a blaenoriaethu prosiectau a daw â'r buddion cyhoeddus mwyaf.

- Daeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i ben drwy dynnu sylw at ymgynghoriad ar Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 a fu ar agor tan 13 Rhagfyr 2024. Roedd yr ymgynghoriad yn disgrifio fframwaith rheoleiddio effeithlon sy'n hanfodol i gefnogi'r gwaith o weithredu prosiectau ynni adnewyddadwy cynaliadwy.

9. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan aelodau:
    - Gwerthfawrogir y diweddariad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd pwyslais ar yr angen i wneud penderfyniadau cynllunio cyflym a symud ymlaen ar brosiectau seilwaith hanfodol.
    - Codwyd y strategaeth ddiwydiannol a'r angen am gymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhan o drafodaethau. Mae cynlluniau gan Lywodraeth y DU i ymgysylltu ag awdurdodau maer neu gyfun yn Lloegr, ond dim ond â Llywodraethau Datganoledig y tu allan i hynny. Codwyd cwestiwn am rôl Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y trafodaethau.
    - Codwyd yr amser a gymerwyd ar gyfer penderfyniadau cynllunio Llywodraeth Cymru ar faterion megis rheoli mawn a Parkway Caerdydd, gan fynegi awydd i weld penderfyniadau cyflymach.
    - Codwyd pryder mewn perthynas â storio batris a'r angen am brosesau cynllunio priodol i sicrhau diogelwch.
    - Gofynnwyd am eglurder mewn perthynas â'r safbwynt a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyllid yr UE, sef na ddylai Cymru fod ar ei cholled oherwydd bod y DU wedi gadael yr UE. Codwyd cwestiwn o ran a oedd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r trafodaethau hynny gyda Llywodraeth y DU, a sut y byddai'r cyllid hwnnw'n cael ei ddyrannu ar draws Cymru.

    CAM GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i gysylltu â Savannah Taj ynghylch cysylltiadau posibl Ysgrifennydd y Cabinet â'r ganolfan adeiladu.

Eitem 3: Yr wybodaeth ddiweddaraf am symleiddio System Budd-daliadau Cymru a Map Llwybr Cam Un

O dan arweiniad Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a'r Cynghorydd Anthony Hunt, llefarydd CLlLC

Gyda chefnogaeth Fran Targett, Cadeirydd y Grŵp Llywio ar gyfer Symleiddio Budd-daliadau Cymru

10. Dechreuodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip drwy ddiolch i aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru am eu cefnogaeth ers lansio Siarter Budd-daliadau Cymru ym mis Ionawr 2024 a chroesawodd y cyfle i gyflwyno'r Map Llwybr Cam Un, gyda'r Cynghorydd Hunt, heddiw. Mae'r Map Llwybr yn nodi'r camau blaenoriaeth ar gyfer galluogi pobl ym

mhob awdurdod lleol yng Nghymru i gyflwyno eu tystiolaeth unwaith yn unig wrth hawlio budd-daliadau allweddol fel Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a phrydau ysgol am ddim, erbyn mis Ebrill 2026.

11. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i CLlLC ac awdurdodau lleol am eu hymdrechion cydweithredol wrth ddatblygu'r Map Llwybr.

12. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip fod rhannu a dadansoddi data yn ystyriaethau allweddol yn y gwaith o symleiddio budd-daliadau Cymru, a bod y rhain yn aml yn cael eu gweld fel rhwystr i bobl hawlio cymorth ariannol.

13. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip y byddai peilot derbyn budd-daliadau gwirfoddol 12 mis yn dechrau ym mis Ionawr 2025, a fyddai'n darparu mynediad at adnoddau dadansoddi data i hyd at 12 awdurdod lleol i nodi preswylwyr nad ydynt yn manteisio ar eu hawliau dros gyfnod o flwyddyn.

14. Byddai rhagor o wybodaeth am y peilot a'r manylion cyfranogi yn cael eu rhannu ar ôl y cyfarfod.

15. Roedd y Cynghorydd Anthony Hunt yn cefnogi'r ymdrechion i symleiddio system budd-daliadau Cymru a sicrhau'r incwm mwyaf posibl i bobl Cymru.

16. Cafodd gwaith da Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar gredydau pensiwn ei ganmol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, ac roedd anogaeth i rannu arferion da.

17. Codwyd rhai pryderon mewn perthynas â meini prawf cymhwysedd Cam Un a fyddai'n cael eu hystyried ymhellach. Cafwyd trafodaethau hefyd am faterion cydnawsedd sy'n gysylltiedig â'r gwahanol systemau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan rai awdurdodau lleol.

18. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a Fran Targett fod y pryderon hyn wedi cael eu mynegi mewn trafodaethau blaenorol a'u bod yn cael eu hystyried gan y grŵp llywio.

19. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip yn ysgrifennu i bob awdurdod ar ôl y cyfarfod hwn i geisio datganiadau o ddiddordeb yn y peilot.

Eitem 4: Cefnogaeth partneriaid wrth weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sydd wedi'i adnewyddu

O dan arweiniad Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

20. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip bwysigrwydd mabwysiadu a gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan bwysleisio bod ei nodau'n ymestyn ar draws Llywodraeth Cymru ac yn eiddo i'r gwahanol feysydd polisi. Hefyd, pwysleisiodd fod llywodraeth leol yn allweddol i gyflawni ystod o gamau gweithredu ar draws y cynllun cyfan.

21. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip rôl allweddol **CLlLC**, a bod trafodaethau diweddar gydag arweinwyr CLlLC wedi ystyried pa gamau pellach y gellid eu cymryd i gefnogi'r agenda hon. Diolchodd i Gyngor Partneriaeth Cymru am barhau i weithio'n agos gyda CLlLC.

22. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip fod y Grŵp Atebolrwydd Allanol yn awyddus i ddeall sut yr oedd y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol ehangach yn mynd i'r afael â rhwystrau ac anghydraddoldebau systemig o ran mynediad, ansawdd a gwasanaethau tai ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig ledled Cymru. Croesawodd gynlluniau clir i gryfhau partneriaethau gydag awdurdodau lleol, gan sicrhau cysondeb o ran arferion gwrth-hiliol, darparu gwasanaethau, ac arweinyddiaeth i bontio'r bylchau gweithredu, er mwyn i lywodraeth leol ddatblygu fel cyflogwr sy'n gosod esiampl.

23. Hefyd, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip fod Cynullyddion Rhanbarthol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn gwasanaethu fel sianel rhwng pobl, awdurdodau lleol, y sector cyhoeddus ehangach a Llywodraeth Cymru. Byddant yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl o leiafrifoedd ethnig i greu mannau diogel a chydweithredol i brofi polisïau gwrth-hiliol ar lawr gwlad a lleihau bylchau gweithredu.

24. Daeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i ben drwy ddiolch i aelodau'r Cyngor Partneriaeth am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad gweithredol i gyflawni nodau a chamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn eu hawdurdodau lleol a'u meysydd gwasanaeth priodol.

25. Tynnodd yr Aelodau sylw at yr heriau sy'n wynebu llawer o ffoaduriaid, a phwysigrwydd goresgyn rhwystrau i gyflogaeth.

Sylwadau i gloi

Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

26. Gwahoddodd Ysgrifennydd y Cabinet unrhyw faterion eraill. Ni chodwyd unrhyw faterion eraill, ac felly diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r aelodau am fod yn bresennol, ac am eu cyfraniadau at y cyfarfod, a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2025.